

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I: CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

**PWNC: CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR
ADDYSG A DYSGU - 1 HYDREF 2018**

**ADRODDIAD GAN: SWYDDOG GWASANAETHAU
DEMOCRATAIDD**

PRESENNOL: CYNGHORYDD HAYDEN TROLLOPE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Day
G.A. Davies
D. L. Elias
J.C. Morgan
J.P. Morgan
L. Parsons
T. Smith

Aelod Cyfetholedig

Mr A. Williams

A: Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Pennaeth Trawsnewid Addysg
Rheolwr Trawsnewid Addysg

GYDA: Ed Pryce, Cynrychiolydd EAS
Sarah Davies, Cynrychiolydd EAS

EITEM	PWNC	GWAITH
1	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u> Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

2	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr:</p> <p>M. Cook, P. Edwards, J. Hill a J. Holt. Mr. T. Baxter – Aelod Cyfetholedig</p> <p>Nodwyd bod y Cynghorydd Phil Edwards yn yr ysbyty a gofynnodd Aelodau am i lythyr yn dymuno'n dda gael ei anfon ato.</p>	
3	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEBAU</u></p> <p>Datganodd y Cynghorydd G.A. Davies fuddiant yn Eitem 6 - Crynodeb o Ddeilliannau Arolwg Sefydliadau Addysgol - Tymor yr Hydref 2018.</p>	
4	<p><u>DALEN WEITHREDU</u></p> <p>Cynhaliwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 3 Medi 2018, yn cynnwys:-</p> <p><u>Materion Galluedd i Gefnogi Disgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref</u></p> <p>Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg bryderon Aelodau a dywedodd y byddid yn cadw golwg agos ar faterion galluedd i gefnogi disgyblion addysg ddewisol yn y cartref.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2018.</p>	
5	<p><u>CYFLWYNIAD - TREFNIADAU ATEBOLRWYDD NEWYDD</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i'r cyflwyniad gan gynrychiolwyr EAS parthed yr atebolrwydd newydd o amgylch y Cyfnod</p>	

Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Diwygio'r Cwricwlwm

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed y £5,882 fesul ysgol i ymgysylltu gyda diwygio addyg, esboniodd cynrychiolydd EAS y caiff hyn ei gefnogi gyda chydlynedd ac y byddai grantiau eraill yn dal i fod ar gael i sicrhau'r budd mwyaf. Roedd ysgolion yn gwybod am amserlen y rhaglen ddwy ran a byddent yn cydbwysu eu hamserau arwain lan yn unol â hynny.

Asesu Athrawon ar gyfer Dibenion Atebolrwydd

Cododd Aelod bryder na chaiff cynnydd ysgolion unigol ei fesur. Dywedodd cynrychiolydd EAS na fyddai unrhyw newid i'r broses gasglu ac y byddai'n rhaid i ysgolion ddal i roi data i Lywodraeth Cymru. Caiff data ei rannu gydag awdurdodau lleol a chonsortia eraill ond ni fyddai'n bosibl cymharu gydag awdurdodau lleol eraill (safleoedd graddio).

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y byddai newid diwylliannol newydd gyda newidiadau sylweddol, dim data ar lefel ysgolion unigol, dim crynodebau meincnod, dim cymariaethau teulu a dim gwybodaeth consortia ar gael ar gyfer craffu gan nad oedd cael yr wybodaeth yn y parth cyheoddus bob amser wedi ei defnyddio'n briodol. Cedwir yr holl wybodaeth ar y gronfa i'w defnyddio gan EAS a herio cynghorwyr.

Cododd y Cadeirydd bryderon am rôl craffu yng nghyswllt data perfformiad ysgolion. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gallai fod amrywiaeth o ddata clwstwr di-enw ar gael ar gyfer craffu effeithlon h.y. categoreiddio cenedlaethol yn seiliedig ar berfformiad ysgol, cynnydd ysgolion sy'n achosi consyrn a deilliannau arolwg Estyn a chynnydd ysgolion mewn categorïau.

Dywedodd cynrychiolydd EAS fod ysgolion ar daith a bod ymgysylltu ysgolion yn y rhaglen diwygio cwricwlwm yn hollbwysig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am newid parhaus dros 5 mlynedd, y pwysau ar athrawon a disgyblion a rôl craffu o fewn y broses newydd yn y dyfodol, dywedodd cynrychiolydd EAS y byddai data trosiant yn cael ei rannu gydag awdurdodau lleol. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y byddai'r Pwyllgor Craffu yn parhau i gefnogi dysgu a deilliannau ar gyfer pob disgybl drwy fwy o waith clwstwr. Yng nghyswllt pontio rhwng ysgolion a choleg, trefnwyd cyfarfod gyda'r pedwar pennaeth Coleg yng Nghymru a fyddai'n rhoi cyfle i drafod pontio i golegau. Roedd y penaeithiaid yn awyddus i gymryd rhan yn y broses ac roeddent yn edrych ymlaen at y newidiadau arfaethedig.

Dywedodd Aelod mai'r newid mwyaf gwerthfawr fyddai cynnydd yn dod yn fwy cyfeillgar i ddisgyblion.

Yng nghyswllt y cynllun Llesiant sy'n anelu i sicrhau y gall darpariaeth addysg ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod pob Pennaeth yn manylu eu huchelgais i gefnogi dysgu disgyblion ac yn targedu adnoddau tuag at angen mwy o newid.

Camau Gweithredu Gosod Targedau

Mynegodd Aelod bryder yng nghyswllt gosod targedau a gofynnodd os oedd hyn yn edrych ar bob grŵp blwyddyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod gosod targedau yn fwy na dim ond cyflawni gofynion statudol, a'i fod yn helpu i herio disgwyliadau a datblygu pob unigolyn i gyrraedd ei botensial llawn.

Newidiadau manyleb TGAU: Risgiau 2017/18

Holodd Aelod am newidiadau manyleb TGAU. Dywedodd cynrychiolydd EAS bod cymwysterau newydd yn dod â mwy o ansicrwydd ond bod gallu ysgolion ac athrawon i osod targedau'n gywir yn cael ei fireinio at gynnydd unigol.

Newidiadau Arfaethedig ar gyfer 2019

Mewn ymateb gan gwestiwn i Aelod am brydau ysgol am

	<p>ddim gyda newidiadau mewn deddfwriaeth par Credyd Cynhwysol, dywedodd cynrychiolydd EAS y byddai mesurau i gymharu perfformiad grwpiau disgyblion e.e. bechgyn/genethod a phlant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a rhai heb fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod pob ysgol yn gynhwysol o bob plentyn.</p> <p><u>Datblygiadau Ôl 16</u></p> <p>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am yr ystod o lefelau A sgiliau allweddol sydd ar gael yng Nghampws Dysgu Blaenau Gwent, dywedodd cynrychiolydd EAS fod sgiliau galwedigaethol ar gael yn y Campws ond y gall fod angen rhoi ystyriaeth i ystod ehangach o gyrsiau.</p> <p>Dywedodd Aelod y gellid defnyddio'r rôl craffu i ehangu a datblygu cwrpas gwybodath a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a gwella sgiliau hunan-arfarnu.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r cyflwyniad.</p>	
6	<p><u>CRYNODEB DEILLIANNAU AROLWG SEFYDLIADAU ADDYSGOL - TYMOR YR HAF 2018</u></p> <p>Datganodd y Cynghorydd G.A. Davies fuddiant yn yr eitem hon ac arhosodd yn y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi gwybodaeth bwysig ar fonitro perfformiad i Aelodau parthed deilliannau arolygion ysgol Estyn a diweddariad o ddeilliannau arolygu ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion a gafodd arolwg yn ystod tymor yr Haf 2018; • Coleg Gwent, sef darparwydd ôl-16 dynodedig y Cyngor • Deilliannau ymweliadau monitro Estyn yn ystod y cyfnod. 	

Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo a hysbysodd Aelodau fod amserlen Estyn ar gyfer hysbysiad ysgrifenedig o arolwg wedi gostwng i 15 diwrnod.

Ysgol Blaen-y-Cwm

Dywedodd Aelod fod Estyn wedi gwahodd ysgol Blaen-y-Cwm i baratoi astudiaeth achos o gofio am y rhagoriaeth a ddynodwyd o fewn yr adroddiad ac awgrymodd fod y Pwyllgor Craffu yn cael gweld yr astudiaeth. Dywedodd cynrychiolydd EAS fod ysgol Blaen-y-Cwm ar ffiniau rhagoriaeth gyda'r arweinwyr a'r Llywodraeth yn cymryd rhan weithgar.

Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am addoli ar y cyd, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gwnaed cynnydd cryf ar 5 argymhelliad a chynnydd da iawn ar argymhelliad 6 - sicrhau fod yr ysgol yn cyflawni gofynion ar gyfer y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd yn y cyfnod uwchradd.

Dywedodd cynrychiolydd EAS mai hwn oedd yr unig ail ymweliad a farnwyd gan Estyn i fod wedi gwneud cynnydd cryfach neu well. Mae cryfhau ansawdd arweinyddiaeth wedi gwella materion allweddol ac wedi bod o fudd i'r ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cysylltiadau agos gyda chydweithwyr yn y Ffindir yn helpu i barhau a datblygu rhagolygon ar gyfer gwella.

Dywedodd Aelod y dylid rhannu arfer gorau ar draws y bwrdd ac y dylid dathlu llwyddiant. Dywedodd cynrychiolydd EAS y cynhelir cyfarfodydd Cadeirydd+ a hefyd ddigwyddiadau hyfforddiant clwstwr a chyfarfodydd sy'n ymwneud yn weithgar gyda dialog arfer gorau.

Cododd Aelodau bryderon am gynnwys adroddiadau'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ym mhecynnau gwybodaeth y Pwyllgor Gweithredol a phryderon pellach nad oedd argymhellion y pwyllgor craffu yn cael eu cynnwys yn adroddiadau'r Pwyllgor Gweithredol.

Cyfarwyddwr
Corfforaethol
Addysg

	<p>Ychwanegodd Aelod y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd drin y mater hwn er mwyn sicrhau y caiff y broses gywir o gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu yn gyntaf i wneud adroddiadau ei dilyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ei bod wedi codi'r mater na ddylid anfon adroddiadau'r Pwyllgor Craffu ar gyfer trafod gael eu hanfon ym mechynnau gwybodaeth y Pwyllgor Gweithredol.</p> <p>Dywedodd y Swyddog Craffu, yng nghyswilt sylwadau ac argymhellion craffu, bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor craffu yn gyntaf ond oherwydd gorgyffwrdd sylwadau amserlenni efallai na chânt eu cynnwys yn adroddiadau'r Pwyllgor Gweithredol. Cyfrifoldeb y swyddogion yw bwydo sylwadau neu argymhellion y pwyllgor craffu ar lafar i'r Pwyllgor Gweithredu a fyddai wedyn yn cael eu cofnodi yng nghofnodion perthnasol y Pwyllgor Gweithredu.</p> <p>CYTUNODD y pwyllgor i argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 i argymhell cymeradwyo'r prosesau i'r Pwyllgor Gweithredol i drin argymhellion.</p>	
7	<p><u>RHAGLEN GWELLA YSGOLION</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi trosolwg i Aelodau o'r ysgolion hynny sydd wedi cyflwyno fel achos consyrn dros y 3 mlynedd ddiwethaf, eu cynnydd a'r gwaith a gyflawnwyd neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i barhau i'w cefnogi i wella.</p> <p>Siaradodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau a gynhwysir ynddo.</p> <p>Nododd Aelodau fod arweinyddiaeth dda yn hanfodol i ysgolion wella a gofynnwyd am adborth am sut y gweithiant fel clwstrwr. Dywedodd cynrychiolydd EAS fod Ysgol Trehelyg wedi manteisio o gynllun ymyriad oedd yn canolbwyntio ar yr angen i adeiladu gallu arweinyddiaeth. Mae'r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion eraill fel</p>	

	<p>Glanhywi a Bro Helyg yn yr ardal, yn wynebu ar i faes gyda gwelliant cyson a chefnogaeth. Gydag arweinyddiaeth ardderchog, roedd y darogan ar gyfer y dyfodol yn gryf gyda mwy o ysgolion yn y categori Gwyrdd na'r categori Oren.</p> <p>Dywedodd Aelod arall y byddai'n fanteisiol i'r Pwyllgor Craffu gael gwybod sut mae ysgolion yn gweithio fel clwstwr. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod canllawiau clir ar yr hyn y gellir ac na ellir ei drafod yn y Pwyllgor Craffu sy'n cynnwys data clwstwr ysgolion unigol. Y weledigaeth ar gyfer Addysg oedd ysgolion yn cydweithio. Mae Swyddogion Addysg yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru i lunio fformat cyffredin y gellid ei ddatblygu i gynnwys ymgyfraniad y Pwyllgor Craffu.</p> <p>Gofynnodd Aelod arall am y sesiwn wybodaeth ar weithio ysgol i ysgol gael ei threfnu ac awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gellid hefyd wahodd penaethiaid ysgol i siarad yn y sesiwn.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef argymhell cymeradwyo'r prosesau i'r Pwyllgor Gweithredol fynd i'r afael ag argymhellion.</p>	Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
8	<p><u>RHEOLI LLEOEDD DISGYBLION A'R STAD YSGOLION 2017/18</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar reolaeth lleoedd disgyblion a'r stad ysgolion drwy gydol sesiwn academaidd 2017/18. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg manwl o'r prosesau a hefyd y deilliannau'n gysylltiedig â rheoli lleoedd a chyfleusterau ysgol.</p> <p>Siaradodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.</p> <p>Holodd Aelod am gyllideb Rhaglen Gweithiau Bach a chafodd ei hysbysu y gellid cario unrhyw dan-wariant</p>	

ymlaen.

Yng nghyswllt ysgolion y 21ain ganrif, cododd Aelod bryderon am gynnal a chadw y 30 adeilad addysgol y mae't Cyngor yn eu rheoli. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg y byddai buddsoddiad £20.25m Band A angen cyfraniad o 50% gan y Cyngor h.y. ychydig dros £10m. Sicrhawyd peth cyllid cyfalaf ar gyfer Band B, ond byddai angen gwneud ceisiadau pellach o raglen cyfalaf y Cyngor yn nes ymlaen yn y tymor.

Yng nghyswllt darpariaeth Gymraeg, byddai'r £6m o fuddsoddiad yn y stad ysgolion yn 100% a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a chyflwynir adroddiad mwyl i'r Pwyllgor Craffu maes o law.

Mewn ymateb i gwestiynau Aelod am lefelau y lleoedd gwag mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r cynnydd yn nifer y disgyblion ar gyfer Cymuned Ddysgu Abertyleri, dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod y mater o'r nifer o'r disgyblion o waelod cwm Ebwy Fach yn mynychu ysgol gyfun yng Nghaerffili wedi ei drafod rhwng y ddau Gyngor drwy weithio mewn partneriaeth. Bu cynnydd yn nifer y disgyblion yn mynychu cyfnod uwchradd Cymuned Ddysgu Abertyleri. Mae'r nifer yn nosbarth derbyn Ysgol Bro Helyg wedi cynyddu a chynhelir adolygiad o gapasiti ysgolion yn nhymor yr Hydref.

Yng nghyswllt cynnal a chadw dywedodd yr Aelod fod dau adeilad Fictoraidd ym Mlaenau Gwent. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod dileu adeiladau sydd angen llawer o waith cynnal a chadw ac sydd yng nghategoreiddio safon gwael yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru o fewn rhaglen Band B.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am dderbyn disgyblion, dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cafodd pob cais am dderbyn eu cyflawni. Bu'r unig wrthodiadau oherwydd maint dosbarthiadau. Mae'r broses apeliadau derbyn yn rhoi ystyriaeth i feintiau dosbarth, capasiti ysgolion a nifer derbyn, sydd i gyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ni allai'r Cyngor dorri'r cod derbyn ysgolion. Bu 8 apêl derbyn a chafodd 7 eu penderfynu o

blaid yr apelwyr. Mae'n anodd i'r Cyngor ystyried apeliadau os yw ysgolion yn cefnogi rhieni yn dadlau'r achos parthed eu dewisiadau ysgol.

Yng nghyswllt ysgolion cyfrwng Cymraeg dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod gofyniad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a chyflwynir adroddiad ar y mater hwn i'r Pwyllgor Craffu maes o law.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod y galw yn cynyddu am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mai Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sydd ond â dim ond un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Nodwyd hefyd nad oedd gan Flaenau Gwent ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a bod disgyblion yn defnyddio darpariaeth yn Nhorfaen.

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod y ffocws presennol ar gynnal arolwg galw dros y cyfnod hanner tymor. Gall unrhyw gynigion ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol ffurfio rhan o'r rhaglen Band C.

Ychwanegodd Aelod fod angen i lywodraethwyr ac athrawon hybu addysg dda ym Mlaenau Gwent a bod y Gymraeg yn rhan bwysig o hynny. Nodwyd fod Ysgol Gyfun Gwynllyw, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, wedi newid ei dalgylch i gynnwys dysgwyr Blaenau Gwent.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef parhau i weithredu'r gweithdrefnau presennol ar gyfer rheoli cyfleusterau, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r gwersi a ddysgwyd.